Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

**Dyddiad / Date:** 8fed Ebrill 2024

Annwyl Rieni/Gwarchodwr,

Efallai y byddwch yn ymwybodol o'r pryderon mawr oherwydd achosion parhaus o'r frech goch yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a rhannau eraill o Loegr. Mae'r achosion hyn wedi digwydd mewn ardaloedd lle bo'r nifer sy'n derbyn y brechlyn yn isel. Er nad oes unrhyw achosion yng Nghymru ar hyn o bryd, arweiniodd nifer fach o achosion ym mis Hydref at ofyn i ryw 50 o blant ynysu ac i beidio mynd i'r ysgol am dros bythefnos.

Mae'r frech goch yn afiechyd hynod heintus a difrifol a gall arwain at ganlyniadau difrifol o ran iechyd y cyhoedd a gall amharu'n fawr ar leoliadau addysg.

Gweler isod y wybodaeth y byddem yn hoffi i chi ei wybod

- Mae'r frech goch yn lledaenu yn y DU ar hyn o bryd ac mae nifer fawr o achosion mewn ardaloedd fel Gorllewin Canolbarth Lloegr a rhannau eraill o Loegr. Bu angen triniaeth ysbyty ar nifer sylweddol (1 ym mhob 5) o blant heb eu brechu sydd wedi dal y frech goch
- Gall y frech goch ledaenu'n gyflym iawn ymysg plant ac oedolion sydd heb eu brechu a gall arwain at salwch difrifol i rai pobl ac mewn amgylchiadau anghyffredin iawn, gall arwain at farwolaeth
- Caiff y frech goch ei ledaenu trwy'r llwybr anadlol. Mae'n lledaenu'n hawdd pan fydd unigolyn sydd wedi'i heintio'n anadlu, yn pesychu neu'n tisian. Mae unigolyn sydd â'r frech goch yn heintus (gall ledaenu'r afiechyd i bobl eraill) o bedwar diwrnod i'r frech nodweddiadol ymddangos
- Y ffordd orau o amddiffyn eich teulu yw i chi a'ch plant gael y ddau ddos o'r brechlyn MMR, sy'n frechlyn **diogel ac effeithiol** sy'n amddiffyn rhag y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela
- Os nad yw'ch brechlynnau chi neu rai eich plentyn yn gyfredol, cysylltwch â'ch meddyg teulu a bydd yn trefnu i chi dderbyn y brechlyn MMR
- I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn MMR, siaradwch â'ch meddyg teulu neu'ch nyrs neu ewch i'r ddolen hon i weld dogfen friffio i ysgolion https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/vaccine-resources-for-health-and-social-care-professionals/measles-and-mmr-vaccination-programme-briefing-document-2024-pdf/

**Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:**
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW
**Gwefan:** www.pbc.cymru.nhs.uk **/ Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Rydym yn gofyn i rieni fod yn ymwybodol o symptomau'r frech goch ac i beidio anfon eu plant i'r ysgol os nad ydynt wedi'u brechu a bod ganddynt unrhyw rai o'r symptomau isod:

- symptomau'n debyg i annwyd fel rhedlif o'r trwyn, tisian a pheswch
- llygaid coch, dolurus, llaith
- gwres mawr (twymyn)
- brech sydd fel arfer yn dechrau ar y pen/gwddf cyn lledaenu ar draws y corff
- smotiau bach gwyn y tu mewn i'r bochau a chefn y gwefusau

Mae'n annhebygol mai'r frech goch ydyw os ydych wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR neu os ydych wedi cael y frech goch o'r blaen. Os byddwch chi neu'ch plentyn yn datblygu'r symptomau hyn a'ch bod heb eich brechu, ffoniwch eich meddyg teulu neu GIG 111. Ni ddylai'r unigolyn lle'r amheuir y frech goch fynd i unrhyw leoliad iechyd (meddygfa, ysbyty neu fferyllfa) heb ffonio ymlaen llaw ac yn rhoi gwybod am unrhyw symptomau a allai awgrymu mai'r frech goch ydyw.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR) - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) a Measles - NHS (www.nhs.uk)

Yn gywir

**Dr Jane Moore**
**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Enw: Claire Homard**
**Cyfarwyddwr Addysg**
**Awdurdod Lleol: Cyngor Sir y Fflint**